

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Cymwysterau a Myfyrwyr

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Holl Bobl	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Holl breswylwyr arferol 16 oed a hŷn	150,763		155,486		2,507,160		2,559,416		45,496,780		48,566,373	
Dim cymwysterau	40,334	26.8%	31,165	20.0%	650,517	25.9%	509,682	19.9%	10,307,327	22.7%	8,827,472	18.2%
Lefel uchaf o gymwysterau												
Cymwysterau Lefel 1	19,683	13.1%	13,267	8.5%	332,943	13.3%	223,025	8.7%	6,047,384	13.3%	4,679,223	9.6%
Cymwysterau Lefel 2	24,748	16.4%	23,691	15.2%	393,819	15.7%	367,360	14.4%	6,938,433	15.3%	6,493,490	13.4%
Prentisiaeth	6,514	4.3%	9,652	6.2%	98,843	3.9%	143,316	5.6%	1,631,777	3.6%	2,590,252	5.3%
Cymwysterau Lefel 3	16,832	11.2%	25,018	16.1%	308,171	12.3%	440,652	17.2%	5,617,802	12.3%	8,225,629	16.9%
Cymwysterau Lefel 4 ac uwch	36,036	23.9%	48,644	31.3%	614,116	24.5%	806,773	31.5%	12,383,477	27.2%	16,413,231	33.8%
Cymwysterau eraill	6,616	4.4%	4,049	2.6%	108,751	4.3%	68,608	2.7%	2,570,580	5.7%	1,337,076	2.8%
Plant ysgol a myfyrwyr llawn amser												
Holl breswylwyr arferol 5 oed a hŷn	178,840				2,952,409				56,365,506			
Myfyrwyr	-	-	31,974	17.9%	-	-	587,588	19.9%	-	-	11,508,092	20.4%
Heb fod yn fyfyrwyr	-	-	146,866	82.1%	-	-	2,364,827	80.1%	-	-	44,857,414	79.6%

Dadansoddiad:

NODYN:

Er bod modd cymharu lefel y cymhwyster uchaf yn fras rhwng 2011 a 2021, ceir cafeatau. Mae'r categorïau wedi aros yr un fath ag yr oeddent yn 2011 ac wedi'u pennu yn yr un modd. Fodd bynnag, mae'r ffordd y strwythurwyd y cwestiynau wedi newid yn sylweddol ers 2011. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr wybodaeth a [gyhoeddwyd gan yr ONS ar ddatblygu'r cwestiwn am gymwysterau ar gyfer Cyfrifiad 2021](#). Mae'r newidiadau hyn i'r fethodoleg gasglu yn golygu y bydd cyfran resymol o'r ymatebwyr wedi nodi lefel wahanol o gymhwyster nag y gwnaethant yn 2011, er eu bod yn dal i fod â'r un cymwysterau. Felly, bydd unrhyw newid yn lefelau cymwysterau o'i gymharu â 2011 yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau i'r fethodoleg ac yn rhannol yn arwydd o newid gwirioneddol. O'r herwydd, dylid dehongli newidiadau yn ofalus a dylai defnyddwyr osgoi dod i gasgliadau arnynt neu eu defnyddio i lywio prosesau cynllunio neu werthuso polisiau.

Er bod materion cymharu rhwng data Cyfrifiad 2011 a 2021, mae'r duedd gyffredinol o gynnydd yn lefelau cymwysterau, a gostyngiad cyfatebol mewn unigolion sy'n dal dim cymwysterau, hefyd yn cael ei weld yn yr ystadegau sy'n deillio o'r Arolwg Poblogaeth Blyneddol.

- Does dim cymwysterau gan 20% o breswylwyr Sir Gaerfyrddin sy'n 16 oed a hŷn, ac mae hyn yn ostyngiad pwynt canran o 6.8 ers y cyfrifiad blaenorol. Mae hyn yn ostyngiad uwch nag yng Nghymru o 6 pwynt canran ac yng Nghymru a Lloegr o 4.5.
- Mae gan 31.3% o breswylwyr Sir Gaerfyrddin gymwysterau Lefel 4 ac uwch h.y., gradd uwch, cymwysterau proffesiynol ayyb. (gweler y diffiniad isod am fanylion llawn), mae hyn wedi cynyddu o 23.9% yn y cyfrifiad blaenorol, mae hyn yn cyfateb i wahaniaeth pwynt canran o 7.4. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ac wedi arwain at leihau'r bwch gyda ffigyrau cenedlaethol.
- Nododd 6.2% o boblogaeth preswylwyr arferol Sir Gaerfyrddin (16 oed neu hŷn) 'Prentisiaeth' fel eu cymhwyster uchaf. Mae hyn yn uwch na'r lefelau ar gyfer Cymru a'r ffigwr cyfunol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Diffiniad:

Lefel Uchaf o Gymhwyster:

Mae'r lefel uchaf o gymhwyster yn deillio o'r cwestiwn sy'n gofyn i bobl nodi pob math o gymwysterau sydd ganddynt. Gofynnwyd i bobl hefyd a oedd ganddyn nhw gymwysterau tramor ac i nodi'r hyn sy'n cyfateb agosaf.

Dim Cymwysterau: Dim cymwysterau academaidd neu broffesiynol

Cymwysterau Lefel 1: 1 i 4 TGAU gradd A* i C, Unrhyw TGAU ar raddau eraill, Lefel O neu TAU (unrhyw raddau), 1 Safon UG, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaenol, Sgiliau Sylfaenol neu Hanfodol.

Cymwysterau Lefel 2: 5 TGAU (A* i C neu 9 i 4) neu fwy, Lefel O (pasio), TAU (gradd 1), Ardystiad Ysgol, 1 Safon Uwch, 2 i 3 Safon UG, VCE, Diploma Canolradd neu Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ Lefel 2, GNVQ Canolradd, Crefft City and Guilds, Diploma Cyntaf neu Gyffredinol BTEC, Diploma RSA.

Cymwysterau Lefel 3: 2 Safon Uwch neu VCE neu fwy, 4 Safon UG neu fwy, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Uwch neu Ddilyniant, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA.

Cymwysterau Lefel 4+: Gradd (BA, BSc), gradd uwch (MA, PhD, PGCE), NVQ Lefel 4 i 5, HNC, HND, Diploma Uwch RSA, BTEC Lefel Uwch, cymwysterau proffesiynol (er enghraifft, addysgu, nyrsio, cyfrifeg)

Cymwysterau eraill: Cymwysterau galwedigaethol neu gymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith, cymwysterau eraill a gyflawnwyd yng Nghymru neu Loegr, cymwysterau a gyflawnwyd y tu allan i Gymru neu Loegr (cymhwyster cyfwerth heb ei nodi neu'n anhysbys)

Myfyrwyr Llawn-amser:

Myfyriwr llawn amser yw person o unrhyw oedran sydd wedi nodi ei fod yn blentyn ysgol neu'n fyfyrwr mewn addysg amser llawn. Mae plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn sy'n astudio i ffwrdd o'u cartref teuluol yn cael eu cyfrif yn breswlydd arferol yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor.